Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ymchwiliad i effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru

COV 49a
Ymateb gan: Chwarae Cymru

Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee

Inquiry into the impact of the Covid-19 outbreak on children and young people in Wales

COV 49a
Response from: Play Wales

---

Yn ein tystiolaeth sydd wedi ei ddyddio 11 Mai 2020, cynigiodd Chwarae Cymru adran dan y teitl **Meddwl ymlaen – dychwelyd i'r ysgol.**

Yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog Addysg am fwriad Llywodraeth Cymru y bydd pob ysgol yng Nghymru yn cychwyn ar y cam nesaf o ail-agor o 29 Mehefin, rydym yn cynnig tystiolaeth bellach.

Chwarae yw'r ffordd fwyaf naturiol a phleserus i blant fod yn egnïol, cadw'n iach a bod yn hapus. Dyma eu ffordd nhw o gefnogi eu hiechyd a'u lles eu hunain. Mae Chwarae Cymru yn cymeradwyo'r galwadau a wnaethpwyd gan arbenigwyr iechyd meddwl yn Play First: Supporting Children's Social and Emotional Wellbeing During and After Lockdown, sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd rhoi cyfleoedd i blant chwarae. Rydym yn parhau i bwysleisio y dylid canolbwyntio i ddechrau ar chwarae ac iechyd meddwl, yn hytrach na "dal i fyny â'r cwricwlwm" pan fydd ysgolion yn ail-agor.

Rydym wedi ysgrifennu erthygl blog ar y cyd â Cathy Atkinson, Uwch Ddarlithydd mewn Seicoleg Addysgol a Phlant ym Mhrifysgol Manceinion sy'n galw flaenoriaethu chwarae a lles plant pan fydd ysgolion yn ail-agor.

Gellir darllen y blog yma:
http://blog.policy.manchester.ac.uk/posts/2020/05/prioritising-play-to-promote-wellbeing/?fbclid=IwAR15XWAWi_ZaMzXwqKIQ8piSGxCDTe4YtWmruJFP0WcHhJskJydwdTxzaRA